

ewmpas

Ar gyfer newid economaidd
a chymdeithasol

Recriwtio pobl â chofnodion
troseddol a thrin gwybodaeth
datgeliad

Dyddiad diweddaru diwethaf: 17 Gorffennaf 2023

Fersiwn Rhif: 4.8

Awdur: Pennaeth Pobl a Diwylliant

ewmpas

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Datganiad Polisi.....	5
Cwmpas	5
Gweithdrefn.....	5
Deddf Adsefydlu Troseddwyr	5
Recriwtio a datgelu.....	6
Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.....	7
Trin gwybodaeth datgeliad.....	8
Adolygiad.....	9
Atodiad 1: Enghreifftiau o'r mathau o alwedigaethau, swyddi a gweithgareddau yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975.....	10
Atodiad 2: Ffurflen datgelu cofnodion troseddol.....	11
Atodiad 3: Mathau o drosedd yng nghyfraith y DU	13
Atodiad 4: Mathau o wiriad DBS	14
Atodiad 5: Geirfa.....	15

Fersiwn Rhif	Statws	Rheswm	Dyddiad
1.0	Drafft	Drafft cychwynnol gan y Rheolwr Adnoddau Dynol	Hydref 2012
1.1	Drafft	Cynnwys sylwadau gan EMT a Chynrychiolydd Undeb	Ionawr 2013
1.2	Drafft	Cynnwys sylwadau gan y Tîm Rheoli	Chwefror 2013
1.3	Wedi dod i ben	Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gweithredol	22 Chwefror 2013
2.1	Adolygiad	Adolygwyd gan y Rheolwr Adnoddau Dynol	28 Mehefin 2016
2.2	Cytuno	Diwygiwyd i gynnwys sylwadau gan yr Uwch Dîm Reoli, Cynrychiolydd Undeb a Chynrychiolwyr Staff	7 Gorffennaf 2016
3.1	Adolygiad	Adolygiad gan y Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol – mân newidiadau i derminoleg	30 Ionawr 2020
3.2	Adolygiad	Adolygwyd a derbyniwyd gan yr Uwch Dîm Arwain	3 Chwefror 2020
3.3	Cytuno	Adolygwyd a derbyniwyd gan gynrychiolydd staff a chynrychiolydd undeb	24 Chwefror 2020
4.1	Adolygiad	Adolygwyd gan Bennaeth Pobl a Diwylliant	23 Ionawr 2023
4.2	Adolygiad	Adolygwyd gan yr Uwch Dîm Arwain	31 Mawrth 2023
4.3	Adolygiad	Adolygwyd gan GMB a chynrychiolwyr staff – cyfeiriad at ymgyrch "Ban the Box	11 Ebrill 2023
4.4	Adolygiad	Adolygiad pellach gan Bennaeth Pobl a Diwylliant	5 Mai 2023
4.5	Adolygiad	Adolygiad pellach a dderbyniwyd gan yr Uwch Dîm Arwain	5 Mai 2023
4.6	Adolygiad	Adolygiad pellach a dderbyniwyd gan GMB a chynrychiolwyr staff	9 Mai 2023
4.7	Cytuno	Adolygwyd a chytunwyd gan y Bwrdd	Mai 2023
4.8	Cymeradwyaeth derfynol	Adolygwyd gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio	17 Gorffennaf 2023

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287R.

Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith.

Datganiad Polisi

- 1.1 Rydyn ni'n cydnabod bod denu a recriwtio pobl fedrus sy'n rhannu ein gwerthoedd yn ganolog i gyflawni ein gweledigaeth a'n cenadaethau.
- 1.2 Rydym am fod yn gyflogwr amrywiol a chynhwysol, ac wedi ymrwymo i reoli ein prosesau recriwtio a dethol mewn modd teg, cyfartal a chyfrifol.
- 1.3 Nid yw cofnod troseddol yn rhwystr i gyflogaeth o reidrwydd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut fyddwn ni'n rheoli cofnodion troseddol a gwybodaeth datgeliad yn ystod ein proses recriwtio.

Cwmpas

- 2
- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i recriwtio a dethol pobl sydd â chofnod troseddol, p'un a ydyn nhw'n gyflogeion presennol neu'n ddarpar gyflogeion Cwmpas.
- 2.2 Bydd y ddogfen hon ar gael ar-lein i bob ymgeisydd ar ddechrau'r broses recriwtio.

Gweithdrefn

Deddf Adsefydlu Troseddwyr

- 3
- 3.1 Cyflwynwyd Deddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974 i sicrhau nad oes achos o wahaniaethu yn erbyn cyn-droseddwyr sydd heb aildroseddu am gyfnod ers dyddiad eu collfarn, wrth wneud cais am swyddi.
- 3.2 O dan Ddeddf 1974, yn dilyn cyfnod penodol o amser (sy'n amrywio yn ôl y datrysiad a weinyddir neu ddedfryd a basiwyd) gall rhybuddion ac euogfarnau fod wedi'u disbyddu. O ganlyniad, ystyrir bod y troseddwr wedi'i adsefydlu. Mae rhybuddion ac euogfarnau sy'n arwain at ddedfrydau carchar o dros bedair blynedd a phob dedfryd amddiffyn y cyhoedd (h.y. troseddau rhywiol a threisgar penodedig) wedi'u heithrio o hyn.
- 3.3 Ar gyfer y rhan fwyaf o ddibenion, mae Deddf 1974 yn trin person sydd wedi'i adsefydlu fel pe na bai ef neu hi erioed wedi cyflawni / wedi cael ei gyhuddo / wedi'i erlyn / wedi'i gael yn euog / wedi'i ddedfrydu am y drosedd. O ganlyniad, unwaith y bydd rhybudd neu euogfarn wedi'i ddisbyddu o dan y Ddeddf, nid oes rhaid i'r unigolyn ei ddatgan wrth wneud cais am swydd.
- 3.4 Mae rhai eithriadau lle gall fod yn rhaid i ymgeisydd ddatgan rhybuddion ac euogfarnau sydd wedi'u disbyddu. Mae'r rhain wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975. Mae hyn yn cydnabod bod rhai gweithgareddau penodol lle mae datgeliad llawnach o hanes o gofnod troseddol

unigolyn yn berthnasol, er enghraifft, lle mae risg wirioneddol i blant, pobl eraill mewn amgylchiadau agored i niwed neu feysydd gwaith hynod sensitif eraill. Rhestrir enghreifftiau o'r mathau o alwedigaethau, swyddi a gweithgareddau yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwr 1974 (Eithriadau) 1975 yn Atodiad 1.

Recriwtio a datgelu

- 3.5 Bydd datgeliadau cofnodion troseddol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i Cwmpas, a hefyd trwy broses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ni fydd Cwmpas yn gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw un ar sail euogfarn neu wybodaeth arall a ddatgelir.
- 3.6 Nid yw'r Gorchymyn Eithriadau yn berthnasol i'r rhan fwyaf o rolau yn Cwmpas. Lle mae'r Gorchymyn Eithriadau yn berthnasol, bydd yr hysbyseb swydd yn nodi y gallai fod angen gwiriad cofnod troseddol "safonol" neu "fanylach". O dan yr amgylchiadau hyn, bydd gofyn i ymgeisydd am swydd restru'r holl rybuddion ac euogfarnau, gan gynnwys rhai sydd wedi disbyddu.
- 3.7 Ar hyn o bryd, nid oes gan Cwmpas unrhyw rolau lle mae angen datgelu rhybuddion ac euogfarnau "gwarchodedig" h.y. lle mae'r swydd neu'r gweithgaredd yn un sydd o'r gonestrwydd mwyaf a bod angen datgeliad llawn er mwyn cynnal ffydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys swyddi neu weithgareddau sy'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol, cwnstabiailid yr heddlu, penodiadau barnwrol a thystysgrifau drylliau.
- 3.8 Er mwyn osgoi sefyllfa o atal pobl â chofnod troseddol rhag gwneud cais am swydd gyda Cwmpas, ni fydd Cwmpas yn gofyn am wybodaeth datgelu cofnodion troseddol yn ystod y cam ymgeisio - yn hytrach, bydd yn oedi hyn nes bod cynnig cyflogaeth yn cael ei ystyried ar gyfer unigolyn. Bydd unrhyw gynigion cyflogaeth yn amodol ar adolygu unrhyw ddatgeliad cofnodion troseddol.
- 3.9 Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion llawn ysgrifenedig o'r amgylchiadau drwy'r ffurflen a ddarperir gan y tîm Pobl a Diwylliant. Mae Atodiad 2 yn cynnwys enghraifft o'r cwestiynau a ofynnir yn y ffurflen. Efallai y bydd hefyd angen i unigolyn gymryd rhan mewn trafodaeth agored am y mater. Yna, bydd y wybodaeth hon, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i'r swydd, yn cael ei hystyried gan banel adolygu sy'n cynnwys unigolion â dyletswyddau penodol sy'n berthnasol i'r broses recriwtio a fetio, a all gynnwys y tîm Pobl a Diwylliant, y rheolwr penodi ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain.
- 3.10 Ni fydd cofnod troseddol o reidrwydd yn gwahardd unigolyn rhag gweithio i Cwmpas. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y swydd ac amgylchiadau a chefnidir y troseddau. Bydd pob achos yn cael ei archwilio'n unigol a byddant yn ystyried y canlynol:
- Natur y drosedd.
 - A yw'r euogfarn yn berthnasol i'r swydd y gwneir cais amdani.

- Pa mor ddifrifol yw unrhyw drosedd a ddatgelwyd.
 - Oed yr ymgeisydd adeg y drosedd(au).
 - Pa mor bell yn ôl y digwyddodd y drosedd.
 - P'un ai achos ynysig oedd hwn neu'n rhan o batrwm o droseddu.
 - Yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r drosedd(au) a'r esboniadau a gynigir gan y sawl dan sylw.
 - Ydy amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid ers yr ymddygiad troseddol.
 - Unrhyw wybodaeth arall am ymddygiad yr unigolyn cyn ac ar ôl y drosedd.
 - Y tebygolrwydd y bydd unigolyn yn cael ei roi mewn perygl.
 - Y tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn risg i blant a/neu oedolion agored i niwed.
- 3.11 I gynorthwyo gyda'r broses adolygu, mae crynodeb o fathau gwahanol o droseddau yn y DU yn Atodiad 3.
- 3.12 Yn dilyn ystyriaeth ddyledus, efallai y bydd angen tynnu cynnig cyflogaeth yn ôl. Bydd trafodaeth gyda'r unigolyn bob amser yn cael ei chynnal cyn gweithredu o'r fath.
- 3.13 Gallai methiant ymgeisydd i ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd y mae'n ymgeisio amdani, arwain at dynnu cynnig cyflogaeth yn ôl, neu, yn achos staff presennol, gallai arwain at gymryd camau disgyblu yn ei erbyn, hyd at ac yn cynnwys diswyddo. Bydd trafodaeth gyda'r unigolyn bob amser yn cael ei chynnal cyn gweithredu o'r fath.

Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

- 3.14 Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed trwy brosesu a chyhoeddi gwiriadau DBS.
- 3.15 Fel cyflogwr, gall Cwmpas ofyn i ymgeisydd swydd gwblhau gwiriad DBS. Mae pedair lefel o wiriadau, ac mae'r manylion wedi'u hamlinellu yn Atodiad 4.
- 3.16 Byddwn yn gofyn am wiriad DBS dim ond ar ôl i asesiad nodi bod un yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw ac yn bodloni meini prawf cymhwysedd lle bo'n berthnasol (gweler Atodiad 4 am fanylion). Bydd Cwmpas ond yn gofyn i bobl ddarparu manylion am euogfarnau a rhybuddion y mae gennym hawl gyfreithiol i wybod amdany'n nhw.
- 3.17 Pan fydd angen gwiriad DBS, bydd yr hysbyseb swydd yn nodi hyn yn gwbl glir. Bydd Cwmpas yn talu am gost cynnal gwiriad.
- 3.18 Bydd Cwmpas yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer y DBS. Dylai unrhyw un sy'n gorfod cynnal datgeliad DBS ddarllen Cod Ymarfer y DBS - mae copi ar gael ar gais gan y tîm Pobl a Diwylliant neu yma:
<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-code-of-practice>

- 3.19 Yn unol â deddfwriaeth a gyflwynwyd ym mis Mai 2013, nid yw rhai hen a mân rybuddion ac euogfarnau bellach yn destun datgeliad. Mae arweiniad ar "hidlo" ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/collections/dbs-filtering-guidance>.

Trin gwybodaeth datgeliad

- 3.20 Fel sefydliad sy'n defnyddio'r gwasanaeth gwirio DBS er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi cyfrifol, mae Cwmpas yn cydymffurfio'n llawn â'r cod ymarfer o ran trin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu tystysgrifau a gwybodaeth tystysgrif yn gywir, gan gynnwys copi caled a gwybodaeth a drosglwyddir yn electronig.
- 3.21 Hefyd, mae Cwmpas yn cydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â thrin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth tystysgrif yn ddiogel.
- 3.22 Bydd gwybodaeth tystysgrif yn cael ei storio'n electronig mewn ffeil a ddiogelir gan gyfrinair (nad yw ar ffeil personél yr unigolyn).
- 3.23 Yn unol ag adran 124 o Ddeddf yr Heddlu 1997, bydd gwybodaeth tystysgrif ond yn cael ei throsglwyddo i'r rhai wedi eu hawdurdodi i'w derbyn neu ei chyrchu gan rai sydd wedi eu hawdurdodi i'w derbyn yn rhinwedd eu dyletswyddau. Mae Cwmpas yn cydnabod ei bod yn drosedd trosglwyddo'r wybodaeth hon i unrhyw un nad oes ganddynt hawl i'w derbyn, neu ei rhannu ag unrhyw un nad oes ganddynt hawl i'w derbyn.
- 3.24 Bydd gwybodaeth tystysgrif ond yn cael ei defnyddio at y diben penodol y gofynnwyd amdani, ac ar ôl cael caniatâd llawn yr ymgeisydd i wneud hynny.
- 3.25 Unwaith y bydd penderfyniad recriwtio (neu benderfyniad perthnasol arall) wedi'i wneud, ni fydd gwybodaeth tystysgrif yn cael ei chadw am fwy o amser nag sydd raid. Mae hyn fel arfer am gyfnod o hyd at chwe mis, er mwyn caniatáu ystyried a datrys unrhyw anghydfodau neu gwynion. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn (a nodwyd yng Nghod Ymarfer y DBS, gan gynnwys unrhyw ofynion rheoleiddiol annibynnol sy'n ymwneud â chadw gwybodaeth Datgeliad), ystyrir ei bod yn angenrheidiol cadw'r wybodaeth honno am fwy na chwe mis. Byddwn yn ymgynghori'n llawn â'r DBS ac yn rhoi ystyriaeth lawn i Ddiogelu Data a Hawliau Dynol yr unigolyn cyn gwneud hynny. Gydol y cyfnod hwn, bydd yr amodau arferol o ran storio diogel a mynediad a reolir yn llym yn bodoli.
- 3.26 Unwaith y bydd y cyfnod cadw wedi mynd heibio, bydd gwybodaeth tystysgrif yn cael ei dinistrio trwy ddulliau diogel h.y. rhwygo, gwasgu yn fwydion neu losgi. Cyn dinistrio'r wybodaeth dan sylw, ni fydd yn cael ei chadw mewn unrhyw dderbynle anniogel (e.e. bin sbwriel neu sach wastraff gyfrinachol).
- 3.27 Ni chedwir unrhyw lungopi na delwedd arall o'r dystysgrif nac unrhyw gopi na chynrychiolaeth o gynnwys tystysgrif. Er hynny, bydd y tîm Pobl a Diwylliant yn cadw

cofnod o ddyddiad cyflwyno'r dystysgrif, enw'r pwnc, y math o dystysgrif y gofynnwyd amdani, y swydd y gofynnwyd am dystysgrif iddi, rhif cyfeirnod unigryw'r dystysgrif a manylion y penderfyniad recriwtio a wnaed.

Adolygiad

- 4.1 Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd gan y Pennaeth Pobl a Diwylliant, neu'n gynt os bydd newidiadau deddfwriaethol perthnasol.
- 4.2 Mis Gorffennaf 2025 yw dyddiad yr adolygiad nesaf.

Atodiad 1: Enghreifftiau o'r mathau o alwedigaethau, swyddi a gweithgareddau yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975.

1. Gweithgarwch a reoleiddir gyda phlant a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys gweithio'n agos gyda phlant fel gofalu am, hyfforddi, goruchwyllo neu fod yn gwbl gyfrifol am blant dan 18 oed (gan gynnwys mabwysiadu, maethu, gofal dydd a gwarchod plant).
2. Gweithgarwch a reoleiddir a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys gofalu am, hyfforddi, goruchwyllo neu fod yn gwbl gyfrifol am bobl eraill sydd mewn amgylchiadau agored i niwed (gan gynnwys gwaith cymdeithasol a gwasanaethau eirioli).
3. Swyddi yn y proffesiynau gofal iechyd (gan gynnwys ymarferwyr meddygol, deintyddion, nyrsys, bydwagedd, optometryddion, fferyllwyr cofrestredig ac osteopathiaid).
4. Swyddi diogelwch gwladol (gan gynnwys darparu gwasanaethau traffig awyr a chyflogaeth gan Awdurdod Ynni Atomig y DU).
5. Swyddi yn y proffesiwn cyfreithiol (gan gynnwys bargyfreithwyr, swyddogion gweithredol cyfreithiol, Gwasanaeth Erllyn y Goron a phenodiadau barnwrol).
6. Swyddfeydd a swyddi yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a'r Swyddfa Farnwrol (gan gynnwys swyddogion diogelwch Ynadon a Siryf, swyddogion diogelwch llysoedd a thribiwnlysoedd a chontractwyr â mynediad heb oruchwyliaeth i lysoedd, adeiladau'r tribiwnlys, swyddfeydd a llety arall a ddefnyddir mewn perthynas â'r llys neu'r tribiwnlys).
7. Swyddi ym maes gorfodi'r gyfraith (gan gynnwys cwnstabiliaid yr heddlu a chadetiaid, heddlu'r llynges, milwrol a'r llu awyr, wardeiniaid traffig a swyddi gyda'r Swyddfa Twyll Difrifol (SFO) a'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA)).
8. Swyddfeydd sy'n gyfrifol am orfodi gwarantau a gwritiau (gan gynnwys swyddogion Llys sy'n gweithredu gwarantau llys sirol, swyddogion gorfodi'r Uchel Lys, siryfion a swyddogion gorfodi sifil).
9. Swyddi gyda'r Gwasanaethau Carchardai a Phrawf (gan gynnwys swyddogion carchardai a phrawf, aelodau o fyrddau ymwelwyr ac ati).
10. Swyddi'r sector ariannol (gan gynnwys cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig, actiwariaid a phob swydd mae gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'r awdurdod cymwys ar gyfer rhestrau, hawl i ofyn cwestiynau esemptiedig er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000).
11. At ddibenion trwyddedu (gan gynnwys trwyddedu'r Loteri, gamblo, drylliau a chyffuriau, trwyddedau Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, a thrwyddedu cerbydau hacni neu yrwyr cerbydau hurio preifat).

Atodiad 2: Ffurflen datgelu cofnodion troseddol



Ffurflen datgelu cofnodion troseddol

Rhan A: I'w llenwi gan y darpar weithiwr / gweithiwr presennol

Enw:	
Os ydych chi'n weithiwr presennol, nodwch deitl eich swydd bresennol:	
Os ydych chi'n gwneud cais am swydd, nodwch deitl swydd y swydd rydych chi wedi gwneud cais amdani:	
Ydych chi wedi cael eich dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd, nad yw'n cael ei ystyried wedi'i disbyddu dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974?	Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/>
<i>Ar gyfer swyddi lle mae angen gwiriad cofnod troseddol safonol neu uwch (h.y. mae'r Gorchymyn Eithriadau yn berthnasol):</i> Ydych chi wedi'ch cael yn euog o unrhyw droseddau sy'n cael eu hystyried wedi eu "disbyddu" ac nad ydynt wedi'u "gwarchod" o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974?	Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/> Ddim yn berthnasol <input type="checkbox"/>

Os ateboch chi 'ydw' i naill neu'r llall o'r cwestiynau uchod, rhowch fanylion llawn, gan ddefnyddio taflen barhad ar gyfer euogfarnau / dedfrydau ychwanegol os oes angen:

Euogfarn / Dedfryd 1

Natur yr euogfarn / dedfryd	
Disgrifiad o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr euogfarn / dedfryd ac unrhyw esboniad neu ffactorau lliniaru y dylid eu hystyried.	
Dyddiad y drosedd	
Eich oedran adeg y drosedd	
Ai dyma'ch euogfarn / dedfryd gyntaf?	Ie <input type="checkbox"/> Nage <input type="checkbox"/>

Euogfarn / Dedfryd 2

Natur yr euogfarn / dedfryd	
Disgrifiad o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr euogfarn / dedfryd ac unrhyw esboniad neu ffactorau lliniaru y dylid eu hystyried.	
Dyddiad y drosedd	
Eich oedran adeg y drosedd	
Ai dyma'ch euogfarn / dedfryd gyntaf?	Ie <input type="checkbox"/> Nage <input type="checkbox"/>

Llofnod:

Dyddiad:



Rhan B: I'w llenwi gan banel adolygu Cwmpas

Panel Adolygu

Aelod 1 o'r Panel Adolygu (Uwch Arweinydd)	
Aelod 2 o'r Panel Adolygu (Rheolwr Cyflogi)	
Aelod 3 o'r Panel Adolygu (Cynrychiolydd Pobl a Diwylliant)	
Dyddiad yr adolygiad:	

Canfyddiadau

Ydy natur y drosedd yn berthnasol i'r swydd y gwneir cais amdani? Os felly, sut?	
Pa gategori sy'n ddisgrifiad gorau o'r math o drosedd(au)? (Gweler Atodiad 3 am wybodaeth)	Ditiadwy yn unig <input type="checkbox"/> Neillffordd <input type="checkbox"/> Trosedd ddiannod <input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod <input type="checkbox"/>
Ydy'r drosedd yn peri risg i blant ac oedolion agored i niwed? Os felly, sut?	
Ydy'r drosedd yn peri risg i gydweithwyr neu randdeiliaid eraill? Os felly, sut?	
Ydy'r drosedd yn peri risg i Cwmpas? Os felly, sut?	
Ydy oedran yr unigolyn adeg adeg y drosedd neu'r cyfnod o amser sydd wedi mynd heibio ers y drosedd yn lleihau'r risg i'r busnes i lefel dderbyniol? Os na, pam?	
Ydy ymddygiad yr unigolyn ers y drosedd yn lleihau'r risg i'r busnes i lefel annerbyniol (e.e. un drosedd, amgylchiadau wedi newid ers y drosedd ac ati)? Os na, pam?	
Sylwadau eraill	
Oes modd parhau â'r swydd?	Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/>

Llofnodion

Aelod 1 o'r Panel Adolygu (Uwch Arweinydd)	
Aelod 2 o'r Panel Adolygu (Rheolwr Cyflogi)	
Aelod 3 o'r Panel Adolygu (Cynrychiolydd Pobl a Diwylliant)	

Atodiad 3: Mathau o drosedd yng nghyfraith y DU

Math o drosedd	Enghreifftiau	Llys a Dedfrydu
Troseddau ditiadwy yn unig	<p>Y troseddau mwyaf difrifol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llofruddiaeth • Treisio • Dynladdiad • Lladrad • Bod â dryll yn eich meddiant • Achos marwolaeth drwy yrru'n beryglus 	<p>Dim ond yn Llys y Goron y mae modd ymdrin â hyn. Mae'r dedfrydau uchaf yn hir. Mae llawer o droseddau ditiadwy yn unig yn cario dedfryd uchaf o garchar am oes. Bydd rheithgor yn penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog neu'n ddieuog. Y barnwr fydd yn rhoi'r ddedfryd bob amser.</p>
Troseddau neillfordd	<p>Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang iawn gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dwyn • Twyll • Ymosodiad a GBH • Bod â chyffuriau rheoledig yn eich meddiant • Bod ag arf bygythiol yn eich meddiant • Gyrru'n beryglus • Troseddau rhywiol penodol fel meddu ar ddelweddau anwedus • Amrywiol droseddau rheoleiddio 	<p>Gelir clywed yr achos mewn Llys Ynadon neu yn Llys y Goron. Y prif ffactor wrth benderfynu pa lys fydd yn ymdrin â throsedd naill ffordd neu'r llall yw'r ddedfryd debygol y bydd y diffynnydd yn ei hwynebu os caiff ei ganfod yn euog. E.e. byddai lladrad fel dwyn o siop yn aros yn y Llys Ynadon, tra byddai lladrad sy'n cynnwys symiau uwch o arian a/neu effaith ehangach ar ddiodefwyr yn cael ei anfon i Llys y Goron. Yr uchafswm dedfryd am drosedd neillfordd y mae'r Llys Ynadon yn delio ag ef yw 6 mis. Os caiff ei glywed gan Llys y Goron, y gosb fwyaf yw beth bynnag yw'r uchafswm am y drosedd honno yn ôl y gyfraith.</p>
Troseddau diannod	<p>Y math lleiaf difrifol o drosedd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Troseddau moduro lefel isel • Mân ddifrod troseddol • Ymosodiad cyffredin • Bod yn feddw ac anystywallt • Cymryd cerbyd modur heb ganiatâd 	<p>Dim ond mewn Llys Ynadon y gellir clywed troseddau diannod. Fodd bynnag, os yw trosedd ddiannod ynghlwm wrth drosedd arall yn y categori "neillfordd" neu "ditiadwy yn unig" gellir ymdrin ag ef yn Llys y Goron mewn rhai amgylchiadau. Fel arfer, uchafswm y ddedfryd yw 6 mis o garchar neu ddirwy o £5,000. Gall Llys Ynadon hefyd roi cosbau fel gwaharddiadau neu wasanaeth cymunedol.</p>

Atodiad 4: Mathau o wiriad DBS

- 1. Gwiriad sylfaenol** – gellir defnyddio'r rhain ar gyfer unrhyw swydd neu ddiben, gan gynnwys cyflogaeth. Bydd tystysgrif sylfaenol yn cynnwys manylion euogfarnau a rhybuddion o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) yr ystyrir eu bod heb eu disbyddu dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974.

Gall unigolyn wneud cais am wiriad Sylfaenol yn uniongyrchol i'r DBS drwy'r dull ymgeisio ar-lein, neu gall cyflogwr wneud cais am wiriad sylfaenol ar ran unigolyn, trwy gyfrwng "Sefydliad Cyfrifol".

- 2. Gwiriad safonol** - mae hwn ar gyfer dyletswyddau, swyddi a thrwyddedau sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974 (Eithriadau) 1975 e.e. swyddogion llys, swyddi mewn carchardai a thrwyddedau Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA).

Bydd y dystysgrif yn cynnwys manylion euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion sydd wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu, nad ydynt yn destun hidlo.

Ni all unigolyn wneud cais am wiriad safonol ar ei ben ei hun. Rhaid bod yna sefydliad recriwtio sydd angen gwirio'r ymgeisydd. Yna caiff hyn ei anfon at DBS trwy Gorff Cofrestredig. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr.

- 3. Gwiriad manylach** – Mae'r gwiriad manylach ar gael ar gyfer dyletswyddau, swyddi a thrwyddedau penodol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Gorchymyn Eithriadau 1975) a rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol), er enghraifft, gofalu, hyfforddi, goruchwyllo neu'n gwbl gyfrifol am blant yn rheolaidd, gweithgareddau penodol gydag oedolion sy'n derbyn gofal iechyd neu wasanaethau gofal cymdeithasol ac ymgeiswyr am drwyddedau hapchwarae a loteri.

Mae tystysgrif fanylach yn cynnwys yr un wybodaeth PNC â'r dystysgrif lefel safonol ond mae hefyd yn cynnwys gwiriad o wybodaeth a gedwir yn lleol gan yr heddluoedd.

Ni all unigolyn wneud cais am wiriad manylach ar ei ben ei hun. Rhaid bod yna sefydliad recriwtio sydd angen gwirio'r ymgeisydd. Yna caiff hyn ei anfon at DBS trwy Gorff Cofrestredig. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr.

- 4. Gwiriad manylach gyda gwybodaeth y rhestr waharddedig** – Mae'r gwiriad hwn dim ond ar gyfer yr unigolion hynny sy'n cyflawni gweithgarwch a reoleiddir yn unig a nifer fach o swyddi a restrir yn rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol), er enghraifft, darpar rieni mabwysiadu a thrwyddedau tacsï a cherbydau hurio preifat (PHV).

Mae tystysgrif fanylach gyda gwybodaeth y rhestr waharddedig yn cynnwys yr un wybodaeth PNC a gwirio gwybodaeth a gedwir yn lleol gan heddluoedd fel gwiriad fanylach, ond bydd hefyd yn gwirio yn erbyn rhestrau gwahardd plant neu oedolion. Ni all pobl ar y rhestrau gwahardd wneud mathau penodol o waith sy'n cynnwys plant a/neu oedolion.

Atodiad 5: Geirfa

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Sefydliad sy'n prosesu ac yn cyhoeddi gwiriadau DBS ar gyfer Cymru, Lloegr, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn cynnal y Rhestrau Gwaharddedig Oedolion a Phlant ac yn gwneud penderfyniadau ystyriol am a ddylid cynnwys unigolyn ar un neu'r ddau o'r rhestri hyn a'i wahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir.

Hidlo

Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses sy'n nodi pa gofnodion troseddol fydd yn cael eu datgelu ar wiriad DBS Safonol neu Fanylach.

Rhestrau Gwaharddedig (Plant ac Oedolion)

Cronfeydd data sy'n cynnwys manylion unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed oherwydd ymddygiad neu droseddau yn y gorffennol. Y syniad yw amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag niwed posibl a achosir gan droseddwyr rheibus, treisgar a chamdriniol. DBS sy'n gyfrifol am lunio, cynnal a gwirio'r rhestrau gwaharddedig. Os yw enw unigolyn yn ymddangos ar un o'r rhestrau gwaharddedig, caiff ei anghymhwyso yn awtomatig o unrhyw rôl sy'n cynnwys gweithio gyda'r naill grŵp agored i niwed neu'r llall.

Mae'r rhestr waharddedig wedi'i chadw ar gyfer Gwiriadau DBS Manylach gyda gwiriad ychwanegol Rhestr Waharddedig. Mae'n anghyfreithlon i gyflogwr ofyn am neu wneud cais am wiriad DBS manylach gyda gwybodaeth y rhestr waharddedig os nad yw'r rôl ei angen, h.y. nid yw wedi'i ddiffinio fel gweithgaredd a reoleiddir. Ar gyfer pobl sy'n cyflawni rôl, neu'n gwneud cais am rôl sy'n cynnwys gweithgaredd a reoleiddir mae angen Tystysgrif DBS Fanylach a Gwiriad Rhestr Waharddedig ac mae'n rhaid i'r cyflogwr ofyn am un cyn y gall y person barhau neu ddechrau gweithio. Rhaid i'r cyflogwr wirio'r cais am wiriad manylach a'i gyflwyno - does dim modd i'r unigolyn ei gyflwyno ei hun yn unig.

Gweithgaredd a Reoleiddir

Gweithgaredd a reoleiddir yw gweithgaredd a ystyrir yn un sy'n hanfodol o ran diogelu gan y DBS. Mae bron bob amser yn golygu gweithio'n agos gyda phlant neu oedolion agored i niwed. Mewn gwirionedd, mae dau ddiffiniad wedi'u nodi gan y DBS, un ar gyfer plant a'r llall ar gyfer oedolion agored i niwed:

Ar gyfer gweithio gyda phlant, diffinnir gweithgaredd a reoleiddir fel:

- Gweithio'n agos â phlant, heb oruchwyliaeth – e.e. ysgolion neu gyfleusterau gofal plant
- Addysgu, coetsio, hyfforddi, cwnsela neu ofalu am blant heb oruchwyliaeth
- Cludo plant heb oruchwyliaeth – e.e. gyrrwr bws ysgol

Ar gyfer gweithio gydag oedolion agored i niwed, diffinnir gweithgaredd a reoleiddir fel:

- Gwasanaethau gofal iechyd heb oruchwyliaeth gydag oedolion bregus
- Gwaith Cymdeithasol
- Darparu gofal personol
- Helpu oedolion agored i niwed gyda bywyd bob dydd
- Cludo oedolion bregus – e.e. gyrrwr bws mini

Sefydliad Cyfrifol

Sefydliad sydd wedi'i gofrestru gyda'r DBS i gyflwyno gwiriadau sylfaenol trwy wasanaeth ar y we yw Sefydliad Cyfrifol (RO).